# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – cyfarfod 74** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 14 Mawrth 2023 |
| **Amser y cyfarfod:** | 10:30 – 13:00 (Ar-lein drwy Teams) |
| **Yn bresennol:**<br><br>(Yn nhrefn ymuno) | Geraint Davies (Cadeirydd, Bwrdd CNC), Carys Drew (Ysgrifennydd CNC), Rosie Plummer (Bwrdd CNC), Phil Stone (Canŵ Cymru), Tony Rooney (Fforwm Mynediad Lleol Cymru (FfMLl)), Bernard Griffiths (FUW), Aled Jones (Cwmni Cyfieithu Cymen), Dave Waterman (LARA), Sarah Smith (LIC), Anthony Richards (Parciau Cenedlaethol Cymru), Emma Robinson (YHA), Rachel Lewis-Davies (NFU), James Nevitt (Ystadau Amddiffyn), Gwenda Owen (Cycling UK), Tom Sharp (Grŵp Gweithgareddau Awyr Agored WSA), Kate Ashbrook (OSS), Helen Donnan (BHS), Charles de Winton (CLBA), Jen Newman (Dŵr Cymru), Steve Rayner (WATO), Jont Bulbeck (CNC), Eben Muse (BMC), Ruth Rourke (Dirprwy Gadeirydd, IPROW), Rebecca Brough (Ramblers), Paula Brunt (Cerddwyr Anabl), David Evans (Cwm Elan), Jonathan Hughes (NT),<br><br>Cyflwynwyr: Eve Nicholson (CNC), Joe Roberts (CNC), Peter Rutherford (Parciau Cenedlaethol Cymru), Amanda Hill (Ramblers), |
| **Ymddiheuriadau:** | Andy Phillips (Angling Cymru), Chris Mills (Afonydd Cymru), Rachel Evans, (Cynghrair Cefn Gwlad) Ian Mabberley (FfMLl Cymru), Emma Henwood (Chwaraeon Cymru) |
| **Sylwedyddion:** | Andy Turner, Steve Jenkinson (Kennel Club), Quentin Grimley (CNC), Dawn Thompson (CNC), Rachel Parry (CNC), Aled Davies (CNC), Bill Purvis (CNC), Richard Thomas (CNC), Mark Weston (BHS), Kieron Foster (Cycling UK), Michael Smith (CNC), Alison Roberts (CNC), Ash Pearce (CNC), Phil Lewis (Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr), Liza Tomos (CNC), Dave MacCallum (CNC), Hannah Brett (CNC), Sarah Tindal (CNC), Matthew Williams (Grŵp Gweithgareddau Awyr Agored WSA), |

## Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd fynychwyr i gyfarfod rhif 74 Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (y Fforwm), a chroesawodd Emma Robinson (YHA) a Jen Newman (Dŵr Cymru) fel cynrychiolwyr newydd eu sefydliadau a gyflwynodd eu hunain yn fyr.

Nodwyd ymddiheuriadau a threfniadau ymarferol. Nodwyd y byddai pwyntiau allweddol o sgwrs y cyfarfod yn cael eu cynnwys yng nghrynodeb y cyfarfod ac atgoffwyd y mynychwyr bod pawb yn gallu gweld sgwrs y cyfarfod. Croesawyd y sylwedyddion ac fe'u hatgoffwyd mai eu rôl oedd arsylwi yn hytrach na chymryd rhan yn y cyfarfod.

## Camau gweithredu a materion sy'n codi

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cwrdd â Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar 8 Chwefror 2023 gyda Carys Drew, CNC a Sarah Smith o Lywodraeth Cymru.

Nododd y cafwyd sgwrs adeiladol am y Fforwm a ffyrdd o weithio. Roedd y Gweinidog wedi cytuno i fynychu cyfarfod y Fforwm ym mis Gorffennaf, ac yn y gobaith o hwyluso hynny, byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd mwy na thebyg.

Roedd y drafodaeth wedi cwmpasu llawer o bethau gwahanol, gan gynnwys parhau i drafod gyda'r Cadeirydd er mwyn cael cyfarfod cerdded i drafod materion mynediad a chwilio am ffyrdd adeiladol ymlaen.

**Pwyntiau trafod:**

- Y bwriad yw trefnu cyfarfod y Fforwm ar gyfer dechrau mis Gorffennaf gan gofio osgoi dyddiadau'r Sioe Fawr
- Mae dyddiad y cyfarfod yn debygol o gael ei symud o 4 Gorffennaf gan nad yw dyddiau Mawrth yn addas i'r Gweinidog oherwydd cyfrifoldebau'r Senedd.
- Holwyd a oedd mynediad at ddŵr wedi'i godi yn y cyfarfod? Y tu hwnt i ymrwymiad cryf gan Lywodraeth Cymru yn 2019, nodwyd nad ydym wedi gweld unrhyw ddatblygiad wedyn a gofynnwyd a yw'r ymrwymiad yno o hyd ac a oes unrhyw ddiweddariad. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi trafod mynediad at ddŵr fel rhan o drafodaeth ehangach ac awgrymodd y dylid codi hyn gyda'r Gweinidog pan fydd yn mynychu cyfarfod y Fforwm ym mis Gorffennaf.

## Llwybr Arfordir Cymru – gwaith hyrwyddo a phartneriaethau wrth ddathlu'r dengmlwyddiant

Rhannodd Eve Nicholson, Marchnata a Chyfathrebu Llwybr Arfordir Cymru, gyflwyniad am y gweithgareddau a gynhaliwyd gyda phartneriaid i hyrwyddo Llwybr yr Arfordir deng mlynedd ers ei sefydlu.

Rhannodd nodau a themâu'r ymgyrch, a galwadau i weithredu a oedd yn canolbwyntio ar: 'Dathlu a Dangos', 'Ysbrydoli a Chysylltu' a 'Cyfathrebu ac Ymgyrch Gymdeithasol' a'r ystod o bartneriaid a gyfrannodd.

Roedd ffilm fer yn dangos uchafbwyntiau ac ehangder y gweithgareddau a gynhaliwyd: Llwybr Arfordir Cymru / Mynediad hwylus, ynghyd ag enghreifftiau pellach o weithgareddau gan gynnwys: ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwaith hyrwyddo gyda Croeso Cymru, gweithio gyda'r Urdd i ennyn diddordeb pobl ifanc, nwyddau Llwybr yr Arfordir a gweithio gydag ymgyrch Ail-lenwi Cymru i gael gorsafoedd ail-lenwi dŵr ar hyd y llwybr. Roedd pwyslais ar rannau hygyrch o'r llwybr, a hyrwyddo'r rhain, yn ogystal â chodi proffil y llwybr drwy weithio gydag wynebau a dylanwadwyr adnabyddus. Roedd prosiect Celf Arfordir Cymru wedi cynhyrchu 20 darn newydd o gelf a barddoniaeth, a oedd i'w gweld yn y brifddinas ar hyn o bryd. Mae gwyddor dinasyddion yn ffordd arall sy'n cael ei defnyddio i ennyn diddordeb pobl yn Llwybr yr Arfordir.

Esboniodd Eve fod dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn fodd o gysylltu â chynulleidfaoedd gwahanol; ac ar hyn o bryd maen nhw'n gweithio gyda'r cyflwynydd Aled Hughes i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd a dysgwyr Cymraeg ac yn croesawu cerddwyr Mwslimaidd yr haf hwn.

Nododd Eve fod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn cyflwyno gweithgareddau yn 2023 a'i fod wedi helpu Llwybr yr Arfordir i ddenu cynulleidfaoedd ehangach o lawer. Mae gweithio mewn partneriaeth yn ychwanegu gwerth at waith y partneriaid dan sylw ac yn sicrhau dull cydgysylltiedig.

Gan adeiladu ar wersi o'r dengmlwyddiant, mae'r blaenoriaethau strategol yn canolbwyntio ar ddull cydweithredol ar gyfer Llwybr yr Arfordir a Llwybrau Cenedlaethol sy'n darparu arlwy cerdded cryf yma yng Nghymru. Rhannodd Eve gynlluniau ac amcanion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod gan weithio ar lefel leol, Cymru, y DU a rhyngwladol - gan ddenu pobl i'r llwybr a hyrwyddo manteision y llwybr.

**Pwyntiau trafod:**

- Mae Llwybr yr Arfordir yn gaffaeliad gwych a chyffrous i Gymru - holwyd a oes gwaith yn digwydd i gefnogi elfennau masnachol fel darparwyr llety ar hyd y llwybr. Cadarnhaodd Eve fod mwy o waith ymgysylltu â busnesau wedi'i gynllunio ar gyfer eleni; gyda chylchlythyr busnes i gysylltu busnesau â gwybodaeth am Lwybr yr Arfordir a chodi proffil y llwybr i fusnesau. Mae arolwg o fusnesau ar y gweill hefyd er mwyn cysylltu â nhw a gweld beth sydd ei angen arnynt, a beth mae Llwybr yr Arfordir ei angen ganddyn nhw.
- Mae blaenoriaethau'r flwyddyn nesaf yn seiliedig ar yr Adolygiad o Lwybr yr Arfordir a bydd diweddariad i arolwg budd economaidd y llwybr.
- Mae'r rhannau o'r Llwybr sy'n hygyrch i bawb i'w gweld ar wefan Llwybr Arfordir Cymru / Mynediad hwylus
- Bydd llwybrau cylchol sy'n defnyddio rhannau o Lwybr yr Arfordir yn cael eu datblygu ymhellach eleni
- Mae rhannau hygyrch i geffylau (llwybrau ceffylau a statws uwch) ar Lwybr Arfordir Cymru / Marchogaeth

## Natur Greadigol: Diweddariad ar raglen gelfyddyddau CNC

Fe wnaeth Joe Roberts, Prif Ymgynghorydd Arbenigol: Hamdden a Mynediad rannu'r manylion am waith diwylliant a'r celfyddydau a sut mae'n plethu â hamdden awyr agored.

Ers llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Natur Greadigol yn 2020, mae CNC wedi gweithio gyda Chyngor y Celfyddydau a phartneriaid eraill yn y sector diwylliannol i archwilio sut y gellir defnyddio'r celfyddydau i ailgysylltu pobl â natur ac ennyn diddordeb pobl mewn trafod yr argyfyngau hinsawdd a natur.

Gyda'r prosiect tair blynedd a gychwynnodd yn 2020 ar fin dod i ben, bwriad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth oedd gosod sylfaen o ddealltwriaeth rhwng y ddau sefydliad a dechrau proses gydweithio. Rhannodd Joe bwyntiau allweddol gweledigaeth y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

- Mwy o bobl, yn enwedig o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn cyrchu'r amgylchedd naturiol a'r celfyddydau mewn ffyrdd newydd.
- Mwy o bobl yn gwerthfawrogi natur ac yn cyfrannu'n weithredol at gynnal ei ddyfodol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol.
- Sector diwylliannol sy'n cydnabod gwerth yr amgylchedd naturiol fel llwyfan ar gyfer cyflwyno gweithgareddau artistig a diwylliannol ac sy'n defnyddio'r celfyddydau er budd cymdeithasol, ecolegol ac amgylcheddol ehangach
- Sector amgylcheddol sy'n cydnabod gwerth y celfyddydau ac yn eu defnyddio nhw a gweithwyr proffesiynol y diwylliant i roi llais i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar faterion cymdeithasol, ecolegol ac amgylcheddol pwysig.

Aeth ymlaen i rannu trosolwg o'r rhaglen, sefydlu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a arweiniodd at sicrhau £300,000 o arian allanol a helpodd 61 o artistiaid i gael eu comisiynu ar 11 prosiect a gynhaliodd 73 o ymyriadau a digwyddiadau gyda chymunedau. Cynhaliwyd gwaith ymchwil i edrych ar werth y celfyddydau o ran helpu i gyflawni nodau CNC, a chynhaliwyd digwyddiadau ar-lein i feithrin y berthynas rhwng y sectorau amgylcheddol a diwylliannol. Yn ogystal ag archwilio'r cysylltiadau, y nod oedd gosod sylfaen ar gyfer gwaith pellach. Canlyniad hyn i CNC oedd helpu Cyngor y Celfyddydau i lunio cyfiawnder hinsawdd i fod un o 6 egwyddor ariannu yn y dyfodol – a dyna sut mae Cyngor y Celfyddydau am fframio eu gwaith amgylcheddol, mae Cyngor y Celfyddydau yn ddosbarthwr cyllid mawr.

Rhannodd Joe nodau a gwerthoedd y Cynllun dros Gyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau sydd wedi'i ddatblygu, lle mae cyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd popeth, ac aeth ymlaen i rannu ambell astudiaeth achos:

- Prosiect ysgrifennu creadigol y Goeden Ysgrifennu, a helpu i ddeall manteision iechyd. Mesur y manteision iechyd a'r cysylltiad â natur mewn sesiwn ysgrifennu creadigol mewn coetir a reolir gan CNC
- Ymchwilio i Lwybr Arfordir Cymru yn y Dyfodol. (Ffilm lawn ar gael yma: Exploring The (Future) Wales Coast Path - YouTube)

Mae cysylltiad â byd natur yn datblygu'n thema allweddol o'r gwaith sylfaen. Mae cyswllt â byd natur yn bwysig, ond er mwyn cael pobl i feithrin agwedd o blaid yr amgylchedd, mae ymchwil yn dangos mai *cysylltiad* â byd natur sydd bwysicaf.

Mae'r syniad o sefydlu Partneriaeth Strategol Genedlaethol yn cael ei drafod i ddod â gwahanol gyrff amgylcheddol, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, iechyd y cyhoedd, a'r sector diwylliannol gyda'r byd academaidd ynghyd i ganolbwyntio ymdrechion ar gysylltiad â byd natur fel sylfaen i waith yn y dyfodol.

# Prosiect fideo mynediad i bobl anabl: Diweddariad Parc Cenedlaethol Eryri

Peter Rutherford, Rheolwr Mynediad a Llesiant, fu'n egluro cefndir ffilmiau newydd a gynhyrchwyd i hyrwyddo llwybrau hygyrch y Parc Cenedlaethol. Nododd ei bod hi'n anodd peidio â bod yn gyfarwyddol ac asesu addasrwydd pan ofynnir am lwybrau addas, felly edrychon nhw ar ffyrdd o gyfleu gwybodaeth mewn ffordd well a mwy modern. Gyda newidiadau i dechnoleg ac offer, mae pobl yn gallu cael mynediad i fwy o ardaloedd felly mae mwy a mwy o angen am wybodaeth.

Mae 6 llwybr pob gallu ar gael i sgwteri 'tramper', ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi comisiynu gwneuthurwr ffilmiau i ddangos y 6 phrif lwybr hwn, a gaiff eu hychwanegu atynt yn y dyfodol. Mae'r ffilmiau'n para 2 funud yr un, ac yn rhoi cyfle i bobl gael golwg gyflym a phenderfynu drostyn nhw eu hunain os yw'r llwybrau'n addas. Mae modd benthyg sgwteri 'tramper' a cherbyd 4 olwyn, drwy system archebu ymlaen llaw.

Yna rhannwyd y ffilmiau: Foel Ispri - YouTube a Lôn Gwyrfai - YouTube

Rhagor o wybodaeth: Mynediad i Bawb | Parc Cenedlaethol Eryri (llyw.cymru)

Soniodd Peter am ystyriaethau dylunio a thirweddu, gan nodi pwysigrwydd darpariaeth sydd o fudd i ofalwyr a phobl anabl fel ei gilydd, a'r ffaith bod ffilmiau'n rhoi hyder i bobl ddefnyddio llwybrau.

**Pwyntiau trafod:**

- Mae cyfleusterau toiled cyfagos yn y rhan fwyaf o'r llwybrau ac mae lle parcio ar gael ym mhob safle.
- Croesawyd y ffilmiau, sy'n ysbrydoledig ac wedi'u rhoi at ei gilydd yn dda, gan sicrhau bod y llwybrau ar gael i ystod ehangach o ddefnyddwyr.
- Mewn ymateb i gwestiwn am y giatiau a ddangoswyd, dywedodd Peter fod giatiau yn agor y ddwy ffordd, ond mai'r dewis yw cael dim giatiau a bod pob Parc Cenedlaethol wedi mabwysiadu polisi o filltiroedd heb gamfeydd. Mae'r ardal droi yn Foel Isbri yn lle 'tro ar deirgwaith' ar hyn o bryd, ond mae ffyrdd o addasu'r safonau i'r lleoliad.
- Mewn ymateb i awgrym y gallai gridiau gwartheg fod yn opsiwn ar gyfer cadw stoc rhag crwydro, nodwyd bod deddfwriaeth gymhleth iawn ar gyfer gosod gridiau gwartheg a'u bod yn ddrud iawn.
- Holwyd a oes gweledigaeth ar gyfer llwybrau pellter hir strategol sy'n cysylltu lleoedd ac integreiddio â chyfleusterau e.e., lleoedd newid ar hyd rheilffyrdd segur yn Eryri. Er bod adroddiad Hobhouse wedi nodi'r cyfle i gaffael gwelyau cledrau e.e., o Drawsfynydd i'r Bala, dywedodd Peter na fachwyd ar y cyfle hwn bryd hynny, felly fe gollwyd llwybrau, ac mae rhai bellach mewn perchnogaeth breifat. Efallai fod rhai rhannau'n addas ar gyfer llwybrau ond gyda chryn dipyn o adnoddau. Mae pwerau gorchmynion creu yn bodoli ond mae angen ewyllys gwleidyddol.
- Mae cysylltedd yn bwysig, cwestiwn o ran beth yw'r rhwystrau i greu llwybrau ac a oes angen arweiniad cliriach?
- Cyngor ynghylch tâl digolledu ar gyfer creu hawl dramwy gyhoeddus: fe wnaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Countryside Agency (Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England bellach) greu canllawiau am hynny. Roeddent yn cynnwys sut i fwrw ymlaen â'r gwaith. Doedd dim modd gosod graddfeyddd talu yn y canllawiau gan fod rhaid i swm y tâl digolledu gyd-fynd â gwerthoedd tir mewn amgylchiadau penodol.

- Awgrym bod ansicrwydd am dâl digolledu posib yn rhwystr i ddefnyddio pwerau.
- Croesawu datblygu llwybrau heb eu gorberffeithio, ac sy'n dal i deimlo eu bod yn rhan o gefn gwlad.
- Mae fideos ar-lein o ddefnyddwyr yn dangos sut i ddefnyddio giatiau a phethau defnyddiol i fynd gyda nhw. Mae elusen Disabled Ramblers yn bwriadu cael wythnos o gerdded a chrwydro yn Eryri.
- Nododd fod llwybrau'n cael eu gwneud yn llai defnyddiadwy oherwydd rhwystrau i atal defnydd anghyfreithlon o foduron. Cyfeiriad at Garland & Anor v Secretary of State for Environment, Food And Rural Affairs [2021] EWCA Civ 1098 (20 July 2021) (bailii.org) sy'n cyfeirio at y pwynt hwn.

## Diweddariad prosiect Llwybrau i Lesiant: Ramblers Cymru

Mae Llwybrau i Lesiant wedi bod yn brosiect blaenllaw i Ramblers Cymru dros y 18 mis diwethaf, a chafwyd cyflwyniad gan Rebecca Brough gyda chymorth Amanda Hill, arweinydd Tîm Gogledd Cymru y prosiect.

Rhoddodd Rebecca drosolwg o'r prosiect, ei nodau; cyflwyno dull seilwaith gwyrdd, seiliedig ar leoedd, i Gymru er mwyn helpu cymunedau i ddeall ac ymwneud â mannau gwyrdd eu hunain a'u rheoli, a chael mynediad at rwydwaith llwybrau mewn ffordd newydd. Ceisio galluogi cymunedau i ddeall beth sydd ganddynt ar garreg eu drws a rhoi'r sgiliau iddynt helpu i ofalu amdano. Dywedodd fod gan y prosiect 12 canlyniad a 55 o allbynnau, ac fel prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru (trwy arian rhaglen datblygu gwledig Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW)), mae'n brosiect cynhwysfawr sydd wedi'i fonitro'n dda.

Rhannodd Rebecca'r dull a defnyddiwyd, o'r alwad gychwynnol i gymunedau gymryd rhan, ac yna dethol cymunedau, ymgynghoriad cymunedol ac ymlaen i ddatblygu cynllun prosiect wedi'i deilwra tuag at anghenion pob cymuned gan gynnwys:

- Gwelliannau ffisegol
- Ymgysylltu â phobl ifanc
- Gwelliannau bioamrywiaeth
- Gwyddor dinasyddion sy'n seiliedig ar natur
- Gwreiddio amrywiaeth – e.e., cynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Diverse Cymru a llwybrau hygyrch
- Wedi'i ategu gan addysg gymunedol – dealltwriaeth well o sut i ddefnyddio llwybrau

Rhannodd Rebecca enghreifftiau o fapiau llwybrau, roedd 145 o lwybrau wedi eu datblygu a byddent yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn ogystal â rhai copïau caled. Gorffennodd drwy rannu dangosfwrdd cryno o'r pethau a gyflawnwyd yn y deunaw cymuned.

**Pwyntiau trafod:**

- Sylw yn croesawu'r cynllun gan fod yn helpu awdurdodau lleol a thirfeddianwyr, ond pryder am hirhoedledd y cynllun. Mae hirdymor yn rhywbeth y mae'r Ramblers yn ymwybodol iawn ohono ac yn edrych ar fathau amgen o gyllid yn y dyfodol, ond mae heriau - mae awdurdodau lleol yn gefnogol iawn ac yn helpu i ddarparu gwybodaeth. Mae'r Ramblers yn gobeithio ymgorffori'r sail gwirfoddolwyr a'r timau systemau a

chynnal a chadw'r llwybrau i wneud yn siwr bod pethau'n cael eu gwneud ar y lefel honno. O ran cynaliadwyedd yn y cymunedau y buont yn gweithio gyda nhw ar lawr gwlad, dywedodd Amanda fod o leiaf hanner y grwpiau yn cynnwys criw o wirfoddolwyr a fydd yn parhau i weithio i gynnal a chyfeirbwyntio'r llwybrau am ychydig flynyddoedd ac edrych ar opsiynau lle mae gwirfoddolwyr Ramblers yno i gefnogi. Hoffai weld proffil ac ymrwymiad cenedlaethol.

- O ran y wybodaeth am y llwybrau, holwyd a yw'r Ramblers yn manteisio ar y cyfle i gynghori cerddwyr am y mathau gwahanol o hawliau mynediad, sut i ymddwyn a'u cyfrifoldebau e.e., rheoli cŵn a da byw. Gwneir hyn ar lefel genedlaethol a bydd yn cael ei ychwanegu at is-wefan Llwybrau i Lwyddiant, gan gynnwys dolenni i'r cod cefn gwlad.
- Mae cydweithio'n amlwg yn y prosiect, ac o ystyried y manteision iechyd awgrymwyd y gallai cyllid y sector iechyd fod yn gyfle i sicrhau cyllid parhaus.

Awgrym y dylai'r Ramblers geisio cael pob llwybr ar fapiau OS fel partner llwybr a argymhellir

# Adolygu cylch gorchwyl y Fforwm

Tynnwyd sylw'r Fforwm at y Cylch Gorchwyl. Cafodd adolygiad trylwyr ohono ei gynnal yn 2019, a phryd hynny, cytunwyd ar ddyddiad adolygu o Orffennaf 2022. Gan fod yr adolygiad diwethaf wedi bod yn un manwl, ni chynigiwyd newidiadau mawr ond gwahoddwyd aelodau i adolygu a darparu unrhyw sylwadau i Carys erbyn 17 Ebrill i'w coladu a'u hystyried yn y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu 74.1**: Pob aelod i adolygu'r Cylch Gorchwyl ac ymateb i Carys Drew gydag unrhyw sylwadau erbyn 17 Ebrill 2023.

**Pwynt trafod:**
Sylwch ar y newid i gynnal rhai cyfarfodydd ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

# Cyfraniadau ysgrifenedig

Cafwyd crynodeb o'r cyfraniadau ysgrifenedig, a bu cyfle i ofyn

cwestiynau i'r cyfranwyr. (Gweler y ddogfen ar wahân a rannwyd).

# Rhagolwg a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

Dyddiad cyfarfod mis Gorffennaf i'w gadarnhau. Cyfarfod wyneb yn wyneb. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi cyfle i’r Fforwm gyfarfod â'r Gweinidog

7 Tachwedd 2023

5 Mawrth 2024

Er mwyn helpu i gynllunio cyfarfodydd i'r dyfodol, awgrymwyd y gallai rhai cyfarfodydd ddilyn themâu penodol a gwahoddir aelodau i wneud awgrymiadau a chyflwyno eitemau.